**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**National Assembly for Wales**
Health and Social Care Committee

30 Gorffennaf 2015

Annwyl Gyfaill,

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys deg o Aelodau'r Cynulliad o bob cwr o Gymru sy'n cynrychioli'r pedair plaid wleidyddol yn y Cynulliad. Nod y Pwyllgor yw dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ar faterion yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys cyllid, gweinyddu, polisi a deddfwriaeth.

Sefydlwyd y Pwyllgor ym mis Mehefin 2011, a bydd yn dod i ben ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad ym mis Ebrill 2016, cyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed barn pobl Cymru am y pum mlynedd diwethaf, gan gynnwys ei ddulliau gwaith, y gwaith y mae wedi'i wneud a'r effaith y mae wedi'i chael. Cyn i'r Pumed Cynulliad ddechrau ar ei waith ym mis Mai 2016, mae'r Pwyllgor hefyd am glywed barn ar yr heriau allweddol o ran iechyd a gofal cymdeithasol dros y pum mlynedd nesaf.

Hoffai'r Pwyllgor glywed barn unrhyw un sy'n dymuno dweud ei ddweud: y rhai sydd wedi cydweithio'n agos â'r Pwyllgor, y rhai sydd erioed wedi ymgysylltu â'i waith a phob un arall rhwng y ddau begwn hyn. **Yn benodol, hoffai'r Pwyllgor gael eich barn ar y cwestiynau a restrir yn Atodiad A i'r llythyr hwn**. Gofynnwn ichi gadw eich sylwadau o dan 2,000 o eiriau a sicrhau bod eich cyflwyniad yn cyrraedd erbyn **dydd Gwener 25 Medi 2015.** Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni at SeneddIechyd@Cynulliad.Cymru . Fel arall, gallwch ysgrifennu at: Clerc y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA. Gallwch hefyd ddefnyddio'r ffurflen ar-lein sydd ar gael ar ein gwefan. Mae rhagor o wybodaeth am sut y gallwch ddweud eich dweud wedi'i nodi yn Atodiad B i'r llythyr hwn.



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddIechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Mae croeso ichi anfon y llythyr hwn ymlaen at unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu. Bydd copi o'r llythyr hefyd ar gael ar wefan y Pwyllgor.

**Datgelu gwybodaeth**

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn www.cynulliad.cymru/cy/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm. Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Mae copi caled o'r polisi hwn ar gael o wneud cais amdano gan y Clerc.

Yn gywir,

**David Rees AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad**

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| A ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad? | |
| Enw'r sefydliad (a'i rôl, os yn berthnasol): | |
| Rhif ffôn / rhif ffôn symudol: | |
| Cyfeiriad e-bost: | |

Caiff eich ymateb i'r ymgynghoriad ei ddefnyddio i helpu i lywio dulliau'r Pwyllgor o ran ei waith. Mae'n bosibl, felly, y bydd y Pwyllgor yn dymuno eich gwahodd i roi tystiolaeth ychwanegol yn y dyfodol, boed hynny yn ysgrifenedig, mewn sesiwn dystiolaeth ffurfiol neu'n rhan o gais anffurfiol am dystiolaeth.

| | | |
|---|---|---|
| A ydych yn fodlon i'r Pwyllgor gysylltu â chi at y diben hwn? | **Ydw** | **Nac ydw** |

## Cwestiwn 1

Gan feddwl am y pum mlynedd diwethaf, yn eich barn chi:

| |
|---|
| - i ba raddau mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cael effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru? |
| |

| |
|---|
| - beth oedd llwyddiant mwyaf y Pwyllgor? |
| |

| |
|---|
| – pe gallai'r Pwyllgor fod wedi gwneud unrhyw beth yn wahanol, beth fyddai hynny a pham? |
| |

| |
|---|
| – a yw gwaith y Pwyllgor wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng craffu ar bolisi, cyllid a deddfwriaeth? |
| |

## Cwestiwn 2

| |
|---|
| Gan edrych ymlaen at y pum mlynedd nesaf, beth, yn eich barn chi, fydd y tair her fwyaf o ran iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru? |
| 1. |
| 2. |
| 3. |

**Atodiad B: Canllawiau i dystion sy'n cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i bwyllgorau**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Yn gyffredinol, gofynnwn i dystiolaeth gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig gan ei bod yn arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor ar ein gwefan fel ei bod yn rhan o'r cofnod cyhoeddus. Fodd bynnag, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth ar ffurf sain neu fideo. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisïau / cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, pan fo'n berthnasol, yn unol â'u polisïau ynghylch gwybodaeth i'r cyhoedd.

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth hygyrch i'r gynulleidfa ehangaf bosibl. Bwriad y canllaw byr hwn yw cynorthwyo tystion sy'n llunio gwybodaeth ysgrifenedig i bwyllgorau. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i ddarparu gwybodaeth a gyflwynwyd gan eraill mewn modd hygyrch.

- Defnyddiwch Gymraeg a Saesneg clir – gan osgoi jargon diangen
- Defnyddiwch ffont sydd o leiaf maint 12
- Defnyddiwch ffont sans serif clir, fel Lucida Sans
- Peidiwch ag ysgrifennu testun dros luniau, graffeg neu ddyfrnodau
- Lliwiau a chyferbyniad – dylai'r ysgrifen gyferbynnu gymaint â phosibl â'r cefndir: ysgrifen dywyll ar gefndir golau, ac ysgrifen olau ar gefndir tywyll
- Peidiwch â defnyddio priflythrennau bloc, a cheisiwch osgoi defnyddio print trwm, print italig a thanlinellu

Lle bo modd, dylid darparu gwybodaeth gan ddefnyddio Microsoft Word er mwyn sicrhau hygyrchedd. Pan fyddwch chi'n cyflwyno sgan neu pdf, yn enwedig pan fyddant yn llythyrau neu'n dablau o wybodaeth, dylech gyflwyno'r ddogfen Word wreiddiol gyda hi.